



PWNC

Ymateb Prydain i erledigaeth y Natsïaid cyn y rhyfel

Goroesi'r Holocaust

GRŴP OEDRAN

Blynyddoedd 7-11 (12-16 oed)

Camau Cynnydd 4 a 5

HYD

1 awr

MEYSYDD DYSGU

A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

DISGRIFIAD

Mae'r gweithgaredd hon yn cyflwyno myfyrwyr i brofiad y rhai a oroesodd yr Holocaust a'r golled etifeddol a brofwyd ganddynt yn sgil erledigaeth y Natsïaid a'r Ail Ryfel Byd. Bydd myfyrwyr yn gwylio tystiolaeth fideo Irene Kirstein Watts, ffoadur Kindertransport, i fyfyrion ar yr heriau a wynebodd ac i ehangu eu dealltwriaeth o ystyr y term 'goroeswr'.

Mae'r gweithgaredd hefyd yn archwilio rhai o gymhlethdodau ymateb Prydain i'r newyddion am erledigaeth a llofruddiaeth Iddewon cyn y rhyfel. Yn benodol, bydd myfyrwyr yn dadansoddi darnau o ddadl yn Senedd y DU ym 1938, a arweiniodd at y rhaglen Kindertransport. Mae hyn yn rhoi darlun o'r gymdeithas Prydain ar y pryd a'r cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol yr oedd ffoaduriaid Iddewig yn ei wynebu wrth gyrraedd y DU.

Er mwyn gallu deall y gweithgaredd hon orau, argymhellir bod myfyrwyr yn cwblhau **Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu** yn gyntaf.

Gellir cwblhau'r gweithgaredd hon fel dosbarth ar ei phen ei hun neu fel rhan o gwrs astudio dwy ran. Mae ail ran y gweithgaredd wedi ei hamlinellu yn **Gweithgaredd 8 - Prydain a'r Golled Etifeddol - Rhan Dau**.*

NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Myfyrion ar y cysyniad o oroeswr.
- Archwilio rhai o'r amwyseddau yn ymateb Prydain i'r newyddion am erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid a'r cyd-destun Prydeinig, a luniodd yr ymateb hwn.
- Mynd i'r afael â'r camsyniad bod achubiaeth bob amser wedi bod yn brofiad syml, cadarnhaol i oroeswyr.

*Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

NODAU DYSGU (parhad)

- Myfyrio ar etifeddiaeth barhaus yr Holocaust o golled ac effaith hyn ar deuluoedd unigol.
- Dysgu am y cysylltiad â Chymru trwy dystiolaeth fideo gan rywun a oedd yn ffoadur Kindertransport.

OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

Ystyried

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod am ystyried y term 'goroeswr' yng nghyd-destun yr Holocaust.

Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'ch meddwl yn awtomatig wrth feddwl am 'oroeswr'. Efallai y byddwch am ofyn cwestiynau i'r myfyrwyr, fel:

- Beth yw ystyr y gair goroeswr (rhywun sy'n dal i fyw, rhywun sydd wedi'i adael ar ôl, rhywun sydd wedi dianc, disgynnydd)?
- Beth ydych chi'n meddwl sydd ei angen arnoch i oresi mewn gwlad dramor, ar ôl dianc rhag erledigaeth erchyll?

Efallai y byddwch hefyd am rannu'r diffiniad canlynol o oroeswr yr Holocaust, fel y darperir gan United States Holocaust Memorial Museum:

*"Mae'r Amgueddfa'n anrhydeddu fel Goroeswyr unrhyw bersonau, Iddewig neu an-Iddewig, a gafodd eu dadleoli, eu herlid, neu y gwahaniaethwyd yn eu herbyn oherwydd polisiau hiliol, crefyddol, ethnig, cymdeithasol a gwleidyddol y Natsïaid a'u cydweithredwyr rhwng 1933 a 1945."*¹

Ar **daflen waith y myfyrwyr**, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu tri emosiwn neu deimlad sy'n dod i'r meddwl pan fyddant yn meddwl am y gair 'goroeswr' (**Tasg 1**).

¹ United States Holocaust Memorial Museum, *Frequently Asked Questions: 11. How is a Holocaust survivor defined?* <<https://www.ushmm.org/remember/resources-holocaust-survivors-victims/individual-research/registry-faq#11>> [cyrchwyd 21 Mai 2022].

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

Casglu

Eglurwch i'r myfyrwyr y byddan nhw nawr yn archwilio'r heriau a wynebwyd gan oroeswyr yr Holocaust drwy edrych ar brofiadau goroeswr, a ddihangodd o'r Almaen Natsïaidd ar y Kindertransport. Fel man cychwyn, bydd myfyrwyr yn dadansoddi darnau o ddadl yn Senedd y DU, a arweiniodd at y rhaglen Kindertransport. Mae'r ddadl yn dangos yr amrywiaeth o agweddau Prydeinig at ffoaduriaid a'r hinsawdd gymdeithasol ac economaidd ar y pryd, sy'n helpu i greu darlun o'r gymdeithas y cyrhaeddodd plant y Kindertransport ynddi.

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau i ddarllen **Taflen 1**. Mae'r Taflen hon yn cynnwys darnau o ddwy araith a wnaed yn Nhŷ'r Cyffredin, y DU ar 21 Tachwedd 1938. Roeddent yn rhan o'r ddadl ynghylch a fyddai Prydain yn derbyn mwy o ffoaduriaid Iddewig o'r Almaen, yn dilyn trais Pogrom Tachwedd ar 9-10 Tachwedd 1938 (*Kristallnacht*).

Dylai un myfyriwr ddarllen yr araith gyntaf ar y Daflen a dylai'r llall ddarllen yr ail araith. Yna dylai'r myfyrwyr drafod yn eu parau yr hyn y maent wedi'i ddysgu.

Efallai y bydd angen i fyfyrwyr gyfeirio hefyd at **Daflen 2**, sy'n darparu rhestr termau allweddol.

Yna, gan weithio mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar **Daflen Waith y Myfyrwyr (Tasg 2)**.

Anogwch y myfyrwyr i fyfyrion ar y canlynol:

- Yn ei araith, dadleuodd Samuel Hoare na allai Llywodraeth Prydain gefnogi niferoedd uwch o Iddewon i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid oherwydd y byddai yn “*anorfod yn arwain at dwf*” gwrth-semitiaeth ym Mhrydain.²
- Dengys bodolaeth a chefnogaeth Undeb Ffasgwyr Prydain fod lleiafrif sylweddol o boblogaeth Prydain, yn y 1930au cynnar o leiaf, yn cefnogi syniadau tebyg i'r Natsïaid yn frwd ac yn meddwl y byddai Prydain yn cael ei gwella trwy fabwysiadu agwedd debyg i'r Drydedd Reich. Mae hefyd yn dangos presenoldeb gwrth-semitiaeth fwy radical ym Mhrydain, sy'n cyferbynnu ag ymdrechion sefydliadau cydymdeimladol eraill ym Mhrydain ar y pryd i helpu Iddewon Almaenig a erlidiwyd.

² Hansard, *Racial, Religious and Political Minorities, HC Deb 21 November 1938 vol 341 c1468* <https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1938/nov/21/racial-religious-and-political-minorities#column_1428> [accessed 21 May 2022].

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

Casglu (parhad)

- Mae araith Samuel Hoare yn ei gwneud yn glir na ellid lletya plant Iddewig oni bai fod eu cynhaliaeth wedi'i gwarantu'n breifat ac na fyddai'r Swyddfa Gartref yn gwneud dim mwy na “*rhoi'r fisas angenrheidiol a chaniatáu iddynt ddod i mewn i'r wlad hon*”.³ Roedd fisas i ffoaduriaid oedd yn oedolion yn amodol ar warantau ariannol a oedd yn gynyddol anodd i Iddewon eu darparu o ystyried cyfreithiau gwrth-Iddewig y Natsïaid (a oedd, er enghraifft, yn eithrio Iddewon o fywyd economaidd yr Almaen ac yn atafaelu eu hasedau a'u busnesau gwerthfawr).
- Yn ymarferol, golygai hyn na allai'r plant, gyda dim ond ychydig o eithriadau, fod yng nghwmni eu rhieni, ac roedd yn rhaid iddynt gael eu noddi gan sefydliadau lles a fyddai'n talu bond o £50 fel sicrwydd fel na fyddai'r plant yn faich ar gyllid cyhoeddus.
- Yn bwysicach na dim, roedd y Kindertransport yn cael ei ariannu gan unigolion preifat a'i drefnu gan asiantaethau lles. Nid menter gan lywodraeth y DU ydoedd – ac mae'r araith gan Samuel Hoare yn dangos terfyn (a rhagfarn waelodol bosibl) ymateb Prydain.
- Yn y pen draw, achubodd cynllun Kindertransport tua 10,000 o blant. Nid oedd hyn, wrth gwrs, ond yn ffracsiwn bach iawn o'r chwe miliwn o Iddewon a fyddai'n cael eu llofruddio yn yr Holocost – ac ni welodd y mwyafrif helaeth o blant y Kindertransport eu rhieni byth eto.
- Mae'r dystiolaeth yn **Nhaflen 1**, felly, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr fyfyrion ar gymhlethdod stori'r Kindertransport – yn hytrach na'i gweld fel enghraifft cwbl gadarnhaol o ymrwymiad dyngarol Prydain.

Nesaf, bydd myfyrwyr yn clywed gan Irene Kirstein Watts, plentyn a oroesodd a ddaeth i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y **bywgraffiad (Taflen Waith y Myfyrwyr)** ar gyfer Irene a gwyliwch y **clip fideo**, lle mae Irene yn disgrifio rhai o'i phrofiadau o fod yn oroeswr ac yn ffoadur Kindertransport ym Mhrydain yn ystod ac ar ôl y rhyfel.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar **Daflen Waith y Myfyrwyr (Tasg 3)**.

Anogwch y myfyrwyr i fyfyrion ar gymhlethdod profiad y goroeswr yn ystod yr Holocost. Mae tystiolaeth Irene am brofiadau ei phlentynod ym Mhrydain yn datgelu rpwysau teuluol, ieithyddol, cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol a wynebodd, ynghyd â rhagfarn amlwg a rhwystrau eraill i berthyn i'w chymuned newydd. Mae hefyd yn datgelu sut yr effeithiodd y profiadau hyn ar Irene drwy gydol ei hoes - ac, er enghraifft, effeithio ar ei gallu i fod yn rhiant, gan ddangos effaith trawma'r Holocost o genhedlaeth i genhedlaeth.

³ Hansard, *Racial, Religious and Political Minorities*, HC Deb 21 November 1938 vol 341 c1474 <https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1938/nov/21/racial-religious-and-political-minorities#column_1428> [cyrchwyd 21 Mai 2022].

Casglu (parhad)

Mae'r cwestiwn olaf yn **Nhasg 3** yn gyfle arall i fyfyrwyr fyfyrion ar yr ystod gymhleth o ffactorau a ddylanwadodd ar lywodraeth, sefydliadau, elusennau, ac unigolion ym Mhrydain yn eu hymateb i Natsiaeth a'r Holocaust – ac effaith y penderfyniadau hynny ar fywydau go iawn.

Llunio

Tasg 4. Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu erthygl papur newydd yn adrodd ar y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin y DU ar 21 Tachwedd 1938, yn seiliedig ar yr areithiau a nodir yn **Nhaflen 1** (gan gynnwys y troednodiadau). Anogwch y myfyrwyr i gynnwys yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd ar sut y dylai llywodraeth Prydain ymateb i erledigaeth yr Iddewon gan y Natsiaid.

Cyfathrebu

Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu eu herthyglau papur newydd gyda ffrind neu aelod o'u teulu. Sut mae eu herthygl wedi ychwanegu at ddealltwriaeth eu ffrind neu deulu o ymateb Prydain i'r Natsiaid yn y cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd a'r Kindertransport? Ysgrifennwch rai nodiadau neu eiriau allweddol sy'n adlewyrchu eu hymateb.

Atodiadau

1. Taflen 1: Darnau o Ddadl Tŷ'r Cyffredin y DU .
2. Taflen 2: Geirfa.
3. Taflen 3: Trawsgrifiad Fideo.
4. Taflen 4: Taflen Waith Myfyrwyr.

Rhestr o Weithgareddau

- Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
- Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith.
- Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
- Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
- Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
- Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
- Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
- Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
- Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
- Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

Delwedd Clawr

Irene Kirstein Watts, gyda'i mam (Margot Kirstein, yn y canol) a'i brawd (Bernot Kirstein, ar y dde) a dynnwyd yn Berlin, 1935. Delwedd o gyfweiliad Irene Kirstein Watts o archif USC Shoah Foundation – The Institute for Visual History and Education, 1998. Am ragor o wybodaeth: <http://sfi.usc.edu/>.